## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | **1 Rhagfyr 2021** |
| **LLEOLIAD:** | ZOOM |
| **TEITL:** | Adroddiad ar Gofnod o Benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur Covid-19 |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | Darparu gwybodaeth am benderfyniadau'r Grŵp Arweiniol Covid-19 ('y Grŵp Rheoli Aur') ar gyfer y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 4 Mai 2021 a 31 Awst 2021 |
| **Y RHESWM PAM FOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | Ni ofynnwyd am y wybodaeth |

**CEFNDIR:**

Ar 25 Mawrth 2020, rhoddodd yr Arweinydd bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr y Cyngor a'r Grŵp Rheoli Aur Arweiniol i wneud penderfyniadau yn ymwneud â dogfen ymateb COVID-19 y Cyngor.
(ar gael ar: https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/).
Mae'r pwerau hynny bellach wedi dod i ben.

Cyhoeddwyd y Cofnod o Benderfyniadau am y tro cyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020).

Cyflwynwyd adroddiadau ar y Cofnod o Benderfyniadau i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2021 ac 16 Mehefin 2021.
(gweler yr adroddiadau ar
http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/Coord%20agenda%20pack%20200121%20FINAL%20Welsh.%20v2pdf.pdf ac ar
https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=195&Ver=4&LLL=0)

**Y SEFYLLFA BRESENNOL**

Mae'r Cofnod Penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur rhwng 4 Mai 2021 a 31 Awst 2021 bellach wedi'i baratoi (gweler **Atodiad 1** ynghlwm). Cyhoeddir y Cofnod o Benderfyniadau ar gyfer penderfyniadau hyd at ac yn

cynnwys 31 Awst 2021 ar wefan y Cyngor (ar https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/).

**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau?** Na
**Os na, nodwch pam**
***Crynodeb:*** *Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth ac nid yw'n cynrychioli unrhyw newid mewn polisi neu strategaeth.*

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn gofnod o'r penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur gyda'r nod o gydbwyso angen yn y tymor byr â chynllunio yn y tymor hir ar gyfer y dyfodol yn sgil y pandemig. |
| **Integreiddio:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn gofnod o'r penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio cynnig budd i'r tri ohonynt yn sgil y pandemig. |
| **Cydweithio:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at y penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur wrth gydweithio â phartneriaid eraill i gyflenwi. |
| **Cynnwys:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at benderfyniadau sy'n cynnwys y rhai sydd â budd ac sy'n ceisio eu barn, ac yn ymgorffori dulliau ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. |
| **Atal:** | Mae'r Cofnod Penderfyniadau yn cyfeirio at y penderfyniadau a wnaed gan y Grŵp Rheoli Aur lle defnyddir adnoddau i atal neu reoli problemau oherwydd y pandemig parhaus. |

**ARGYMHELLIAD:** Nodi cynnwys Cofnod o Benderfyniadau Cyfarfodydd Grŵp Arweiniol Covid-19 y Grŵp Rheoli Aur (**Atodiad 1**).

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:** Monitro dull llywodraethu trefniadau gwneud penderfyniadau addasedig y Cyngor

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Elin Prysor |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro) |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 7 Medi 2021 |
| **Acronymau:** | Amherthnasol |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1** – Cofnod o Benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur (penderfyniadau rhwng 4 Mai 2021 a 31 Awst 2021) |